Thomas John Barnardo 1845–1905

Sefydlydd Cartrefi Barnardo i blant amddifad

Bu cynnydd enfawr yn nifer y plant digartref yn Lloegr yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Er nad oes ystadegau manwl tybir bod cymaint â 30,000 o blant dan un ar bymtheg oed yn byw ar strydoedd yr East End, Llundain. Byddai hyd at 15,000 o rai eraill heb gartrefi parhaol ond yn gallu talu ychydig am lety.

Sefydlwyd nifer o gartrefi iddynt, e.e. Shaftesbury Homes, St Giles ym 1843 a Chartrefi Mr Fegan i fechgyn amddifad ym 1870. Sefydlwyd cartrefi gan Ymneilltuwyr a Chatholigion.

Ganwyd Thomas Barnardo, a oedd o dras Eidalaidd, yn Nulyn i deulu o fasnachwyr crwyn ffyniannus. Addolai ei rieni'n gyson yn Eglwys Sant Andreas ond nid oedd ganddo ef fawr o ddiddordeb mewn crefydd. Yn wir datganodd pan oedd yn un ar bymtheg oed ei fod yn agnostig. Er hynny roedd bwriad Duw ar ei gyfer yn wahanol ac fe gafodd dröedigaeth gan ymuno â'r Brodyr Plymouth (Open Plymouth Brethren). Gweithiodd yn ddygn am bedair blynedd gyda'r tlodion yn Nulyn. Yn dilyn sgwrs gyda Hudson Taylor ym 1865 derbyniodd wahoddiad i fynd yn genhadwr.

Ym mis Ebrill 1866 aeth i Lundain i ymuno â chriw o recriwtiaid oedd ar fin hwylio i China. Ond yna perswadiodd Hudson Taylor ef y dylai gael ei hyfforddi fel meddyg cyn mynd. Er ei fod yn siomedig cofrestrodd yn y London Hospital yn Whitechapel. Ymaelododd gyda'r Brodyr Plymouth yn Sidney Street a threuliai bob Sul a dwy noson yr wythnos yn dosbarthu Beiblau a phregethu ar y strydoedd. Dyn bychan o gorffolaeth ydoedd, rhyw bum troedfedd a thair modfedd o daldra. Yn ddiweddarach y flwyddyn honno fe agorodd ysgol ar gyfer plant tlawd mewn hen stabl mulod. Roedd llawer o resymau am y digartrefedd fel diweithdra, cyflog isel ac alcohol. Gorfodwyd rhai plant i gardota, gwerthwyd eraill gan eu rhieni fel llafur rhad a thaflwyd eraill o'u cartrefi. Sefydlodd yr East End Juvenile Mission mewn dau fwthyn gyferbyn â'r stabl. Cynorthwyai'r

plant hefyd i gael swyddi ond gwyddai nad oedd ei waith yn ddigonol a bod angen ateb llawer mwy radical.

Un dydd rhoddwyd £1,000 gan Aelod Seneddol tuag at y gwaith. Cymerodd Barnardo hyn fel arwydd gan Dduw y dylai barhau yn y gwaith hwnnw gan roi heibio'r syniad o fynd yn genhadwr i China. Gan barhau gyda'i addysg feddygol, pregethai Barnardo dair gwaith yr wythnos a chynnal cyrddau gweddi nosweithiol. Deuai hyd at 500 o ieuenctid i'r cyfarfodydd hyn ac erbyn gwanwyn 1870 yr oedd 150 o ddychweledigion wedi eu bedyddio.

Rhentodd dŷ mawr ar y Stepney Causeway fel cartref i blant amddifad. Aeth trwy slymiau cyfagos yn gwahodd bechgyn i ddod yno i fyw ond ar y dechrau nid oedd lle ond i bump ar hugain. Ei gynllun mawr nesaf oedd agor y People's Church ynghanol yr East End. Prynodd hen dŷ tafarn yr Edinburgh Castle a'i agor fel capel gyda chaffi a bar coffi. Penodwyd ef yn fugail ac fe gynyddodd y gynulleidfa i ddwy fil o addolwyr ar y Sul. Yn yr un flwyddyn priododd Sarah Louise (Syrie) Elmslie o Richmond a chyda'i gilydd agorasant y cartref Barnardo cyntaf i ferched yn Ilford. Yn fuan sylweddolodd bod angen patrwm gwahanol i ferched a datblygodd Bentref i Ferched yn Ilford.

Fel meddyg roedd ganddo faich arbennig dros iechyd plant. Ym 1876 agorodd ysbyty i blant sâl yn agos i'r cartref yn Stepney Causeway. Tros y blynyddoedd ymestynnodd i lawer o gyfeiriadau. Agorodd gartref i fabanod yng Nghaint ym 1883, dau gartref i bobl fethedig ym 1887, cartref i bobl gyda chlefydau marwol ym 1894 ac Academi Forwrol i fechgyn ym 1903. Rhoddwyd cyfle i rai o'r plant hŷn ddechrau bywyd newydd yng Nghanada ac Awstralia. Cynhaliwyd yr holl sefydliadau trwy weddi a rhoddion gwirfoddol a chyrhaeddodd cyfanswm y rhoddion £150,000 y flwyddyn. Er hyn fe aeth i ddyled fawr a bu'n rhaid tocio ar y gweithgareddau.

Bu Thomas John Barnardo farw gartref yn St Leonard's Lodge ar 19 Medi 1905 o drawiad ar y galon. Arddangoswyd ei gorff yn yr Edinburgh Castle am dri diwrnod a chladdwyd ei weddillion yng ngerddi'r Pentref i Ferched yn Ilford.